



Llais y Llan Awst 2018

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24th Medi 2018

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

- Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo pob Nos Llun a pob Nos Iau, 7.30 – 9.30 Neuadd Goffa
Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643
Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4
Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd
Llyfrgell Deithiol - pob Dydd Mercher, 10.45 – 11.45, Neuadd Goffa Ffôn 01267 224830
Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Gwener 11.15 – 12.15 Neuadd Bronwydd
Gwasanaeth Swyddfa Bost ar ddydd Mawrth 2.00 - 4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 Bryn y Wawr
Merched y Wawr Trydydd Nos llun o'r Mis yn y Neuadd Goffa
Awst 11 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded Mynydd Llanllwni
Awst 14 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 01267253643
Awst 18 Dydd Sadwrn 3.00 Sioe Garddwriaeth Flynyddol Neuadd Bronwydd
Awst 20 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd
Awst 21 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd
Awst 23 Dydd Iau Diwrnod Agored Cymunedol Gorllewin Coedwig Brechfa
Awst 25 Dydd Sadwrn Sioe Cynwyl Elfed
Awst 26 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook Inn Bronwydd
Medi 1 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded Llansteffan
Medi 4 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
Medi 5 Dydd Mercher 10.00 Clinig Traed Neuadd Goffa
Medi 9 Dydd Sul Taith Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Medi 12 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 01267253643
Medi 18 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd
Medi 22 Dydd Sadwrn 10 – 12 Macmillan Bore Coffi Neuadd Goffa
Medi 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Medi 25 Nos Fawrth Lles Prydau Elusen Tafarn y Rheilffordd
Medi 30 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook Inn Bronwydd

Hydref 2 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Hydref 5 Nos Wener Gwasanaeth Diolchgarwch Llanpumsaint gyda swper i ddilyn.

Hydref 6 Dydd Sadwrn Cerdded Cilgerran

Hydref 10 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 01267253643

Hydref 13 Nos Sadwrn 7.30 'Meat Loaf' Neuadd Goffa

Hydref 16 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Hydref 19 Nos Wener Sioe Ffasiynau er budd Eglwys Sant Celynin

Hydref 28 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Hydref 28 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook Bronwydd

Tachwedd 3 Nos Sadwrn Cyngerdd Blynyddol ar Dachwedd Capel Tabernacl

Tachwedd 5 – 9 Twrci a Thinsel Clwb 60+

Tachwedd 6 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Tachwedd 14 Dydd Mercher Taith Trego Mills Clwb 60+

Tachwedd 21 Nos Fercher 7.00 'Bingo' Neuadd Goffa

Rhagfyr 1 Dydd Sadwrn Christmsas Fair Neuadd Goffa

Rhagfyr 13 Dydd Iau Cyn Mwynhau ein Cinio Nadolig

I logi'r Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri, ffoniwch Derick Lock 253524



Rhaeadr a phyllau - Afon Cerwyn



Cerddwyr yn y glaw



Afonydd Llifogydd 2006



Caeau Llifogydd 2006

Credwch y byddech i gyd yn hoffi gweld rhai lluniau yn dangos glaw!

Clwb Cerdded

Ar y diwrnod hiraf ym Mehefin,, gyda chaniataid perchennog y tir, cerddom i fyny'r Afon Cewyn at Byllau enwog y Saint. Yna yng Nghorffenaef aethom i Dalacharn i gerdded ar hyd yr arfordir ar ddiwrnod bendigedig, gan orffen yn mwynhau hufen ia ger y castell.

Sadwrn 11eg Awst 2 o'r gloch - Awn i fynydd Llanllwni gan barcio ar ochr yr hewl ar y cyf map 499362. I gyrraedd trowch i'r dde o'r 485 yn New Inn - yna yn sydyn i'r chwith wedi rhywbeth dros chwarter milltir ar ôl pasio maes parcio Coedwig Brechfa. Bydd yna le i ryw bedwar car i barcio pan gyrhaeddwch. Taith ar dir uchel gyntefig gyda golygfeydd godidog.

Sadwrn 1af Medi 2 o'r gloch- Byddwn yn dychwelid i Lansteffan. Wedi ymgynnull yn y brîf faes parcio dan y castell, os fydd y llanw'n caniatáu, byddwn yn cerdded ar hyd y traeth i Fae Scott a Ffynnon Sant Antwn. Wedyn dychwelid ar hyd y llwybr, sydd yn daith eithaf rhwydd.

Sadwrn 6ed Hydref - 2 o'r gloch - Cilgerran Taith o gylch y Goedardd blannwyd ugain mlynedd yn ôl. Dylai lliwiau'r hydref a'r mes ei wneud yn brofiad werth chweil. Taith o bum milltir gyda rhai mannau gwlyb os fydd y tywydd fel hynny. Gellir parcio ar heol Llechryd yn syth ar ôl Cilgerran. Croesawn bawb ar ein teithiau ac am fwy o wybodaeth codwch y ffon i Carolyn Smethurst.01267 253308.

Rhybydd Which am scamdwyll Costa Coffi ar whatsapps

Mae rhai pobl wedi eu dal gan daleb ffug honedig o Gosta Coffi ac wedi datgeli wybodaeth bersonol i ddrwg weithredwyr. Yr abwyd yw cynnig o wobr o £75 i ddathlu pen-blwydd Costa yn hanner cant. Wedyn gofynnir am wybodaeth bersonol cyn trosglwyddo'r arian.

Mae Costa wedi cadarnhau mae scam llwyr yw'r cynnig. Felly os daw atoch peidiwch dderbyn a pheidiwch glicio ymlaen i ddim byd. Ceir mwy o wybodaeth am yr holl beth a'r wefan Which

Lleoliadau'r Peiriant Adfywio -Gellwch ddod o hyd i leoliadau'r Adfywir unrhyw le yng Nghymru drwy lenwi eich cod post. Ewch i wefan Y Bwrdd Iechyd - *NHS Direct Wales* ac yna'r adran ar wasanaethau lleol - *Direct Services*. Drwy lanw eich cod post bydd yn dangos rhestr o bob Adfywiwr yn yr ardal.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint –

Tachwedd 21ain – Bingo! – Neuadd Goffa am 7.30 yh.

Rhagfyr 1af – Ffair Nadolig – Neuadd Goffa

Mae'r Gymdeithas yn ymddiheuro am ddyddiad gam- arweiniol Noson Pampers. Hyd yn hyn nid oes dyddiad wedi ei benodi gan ein bod yn awyddus i osgoi gwrthdaro a rhywbeth lleol arall. Felly cadwch lygad yn agored am newyddion pellach.

Bingo - Yn dilyn llwyddiant y tro diwethaf penderfynwyd cynnal un arall ar yr 21ain o Dachwedd.

Mynediad am ddim ac yna gallwch brynu eich cyfarpar cyn cystadlu am y gwobrau. Bydd lluniaeth ar gael felly croeso mawr i bawb.

Ffordd rwydd o godi arian wrth siopa ar y we - cofrestrwch ar

www.easyfunding.org.uk/llanpumsaintpta <<http://www.easyfunding.org.uk/llanpumsaintpta>> neu cysylltwch ag Emma Brown er mwyn creu'r cysylltiad. Os oes yna rywun yn y gymuned yn gallu hawlio£4E drwy eu gwaith ac yn fodlon i'r gymdeithas ei gael yna cysylltwch â Becky James 253560.

Dydd Agored Cymuned Coedwig Brechfa

“Erbyn hyn mae pob tyrbin yn weithredol er ein bod yn dal i wneud gwasanaethau cefndirol. Hoffwn eich gwahodd chi gyd i’n Diwrnod Agored am 2 o’r gloch y prynhawn ar y 23ain o Awst. Cewch eich tywys ar daith gylchynol o dri chilomedr o amgylch y Fferm Wynt ar lwybrau sydd wedi eu creu gan gynnwys pontydd troed. Bydd aelodau o Innogy yno i’ch arwain ar hyd y daith. Dyma achlysur i’r teulu ond rhowch wybod ymlaen llaw er mwyn i ni eich cofrestru a chynllunio’r dydd. Ewch i brechfa@innogy.com <<mailto:brechfa@innogy.com>>” Martin Kelly

Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru

Dydd Sul Medi 9fed - Taith maes i Sidydd Pumsaint yng nghwmni i’r awdures a dewinwraig Jay Laville
Dydd Sul Medi 23ain – Kiera Jones – cyflwyniad i Fydwreigiaeth yr Enaid.

Dydd Sul Hydref 28ain – Diwrnod Ymarfer

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol a hawdd ei ddysgu a gwnaeth darddu o’r Aifft. Dewisa nifer o gwmnïau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rhai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd ond hyd yn hyn agwedd bersonol yw heb gadarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45yp, ac am £4 cewch baned yn y fargen. Does dim angen cyfarpar felly cysylltwch â Sandy ar 01267 253547

Dyddiadau Eglwysig

Sul 26ain Awst 2 o’r gloch - Gwasanaeth Bendithio anifeiliaid anwes - Eglwys Llanllawddog.

Nos Wener 28ain Medi am 6.30 yb - Cwrdd Diolchgarwch Yn Sant Celynin.

Dydd Llun 10fed Medi - O 3’30 hyd 5 yb – Eglwys Agored yn Llanpumsaint – Cyfarfod anffurfiol gyda lluniaeth, hanesion a chrefftau.

Bore Sul 30ain Medi - 10 o’r gloch – Cymundeb Diolchgarwch y tair eglwys yn Llanllawddog, gyda lluniaeth i ddilyn.

Nos Wener 5ed Hydref – Gwasanaeth Diolchgarwch Llanpumsaint gyda swper i ddilyn.

Nos Wener 19eg Hydref – Sioe Ffasiynau er budd Eglwys Sant Celynin.

Neges y Ficer - Bu’n wythnos brysur yn y Ficerdy wrth i mi geisio rhoi trefen ar bethe cyn mynd ar fy ngwyliau. Erbyn i chi ddarllen hwn bydd gwyliau’r haf ar ddiplannu ac mi fyddwn ni yn yr eglwys yn meddwl am y gwasanaethau Diolchgarwch. Er hynny mae cyfnod i ymlacio’n bwysig, er mwyn mwynhau cwmni teulu a ffrindiau, ac i’r Cristion amser i Dduw.

Yn stori’r Cread gwelwn fod Duw ei hun wedi ymlacio ar y seithfed dydd ac wedi ei fendithio. Dywed y Deg Gorchymyn y dylwn barchu’r Sabath a rhoi gwaith o’r neilltu. Sylweddolodd yr Iesu hefyd bwysigrwydd ymlacio, a phan oedd ei ddisgyblion yn or-brysur a dywedodd wrthynt, “Dewch chwi eich hunain o’r neilltu i le unig a gorffwyswch am dipyn” (Marc 6 - 31). Dwy i’n chael hi’n anodd gorffwysu yn y byd or-brysur yma, lle mae siopau ar agor pedwar awr ar hugain a theithio mor hawdd, ac yn anodd gwneud amser i weddio. Os gwelwch fi’n rhuthro’n ormodol yna gwedwch wrtho’i am ymarfer yr hyn ‘dwy’n pregethu

Wrth lwc nid yw fy ffon symudol yn gweithio y tu fewn i adeiladau’r eglwysi sy’n fy ngofal. Gwnaf yn siŵr felly fy mod mewn undod a’r Sabath gan droi’r byd mawr o’r neilltu. Felly wrth i dymor y gwyliau ddod i ben, efallai y gwnewch chi adennill y Sabath hefyd, er mwyn profi cyfnod o sefyll yn ôl a myfyrio, am ryw hanner awr ‘falle. ‘Ddim rhaid i hynny ddigwydd ar y Sul chwaith. Os gall ein cyfarfodydd neu’n hadeiladau neu hyd yn oed ein mynwentydd eich cymorth i wneud hyn, yna croeso
Parch Gaynor 01267 253158 – i gaynor@hotmail.com

Neges Gan Bwyll o Panteg

Symudom i Panteg ar 8fed Mehefin 2016 wedi canfod cartref bach delfrydol i gadw dau geffyl ac ardd fach ddymunol. Cawsom groeso cynnes i'r ardal gan drigolion.

Ond nid aur yw popeth melyn ac mae yna anfanteision wedi amlygu eu hunain. Bu'r siop yn cau yn ergyd, yn enwedig colli'r papur dyddiol a gwelwn eisiau casglu wyau pan fod galw. Mae cyflymder y cerbydau ar yr heol yn achosi pryder yn enwedig yn gynnar y bore, pan mae'n beryglus croesi'r hewl. Cynghorwyd ni osod drych yr ochr draw a chaniataid y Cyngor i ychwanegu dau arwydd MYNEDFA GUDD. Ond ofer fu'r ymgais, wrth i'r gyrwyr roi trod lawr wedi mynd heibio'r arwydd 40 Milltir ger Gwarcwm. Hon yw'r hewl i'r Bronwydd nid Brands Hatch!.

Felly gofynnaf yn gwrtais i yrwyr fod yn rhesymol drwy symud ar gyflymder y medrent stopio, a hyn cyn i ddamwain ddigwydd. Bu bron i mi chael hi'r dydd o'r blaen, wrth i gar du hyrddio ataf cyn atal ar y funud olaf, ac yna canu corn yn wyllt. Dysgodd ein cath i osgoi'r hewl, ond lladdwyd nifer o wiwerod. Felly cofiwch fod cerbydau yn gadael ac yn dod miwn i Panteg os gwelwch yn dda. Rydym yn hapus iawn yma ond gan nad oes siop yma bellach rhaid mentro i Tesco ar adegau.

Diolch – Sylvia Davies

Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa

Etholwyd y Swyddogion canlynol am y flwyddyn 2018-2019 yn y Cyfarfod Cyffredinol diweddaraf – Cadeirydd – Elfed Davies

Is-gadeirydd – Dylan Jones

Ysgrifennydd – Swydd yn wag ar hyn o bryd

Ysgrifennydd Cofnodion ac Agenda - Marice Sherlock

Trysorydd – Geraint Hughes

Clerc Llogi – Derick Lock - Dirprwy Glerc Llogi – Arwel Nickolas

Archwilydd - Heledd Jones

Allwedd mewn Argyfwng - Celt Thomas

Swyddog Tan – Celt Thomas.

Penderfynwyd cadw at yr un prisiau llogi - h.y. -

Y brif Neuadd - £8 yr awr yn yr wythnos (neu'n rhannol)

Gwener a'r penwythnos £10 yr awr (neu'n rhannol)

Yr Ystafelloedd Cyfarfod - £5 yr awr (neu'n rhannol) ar unrhyw ddydd .

Defnydd o'r Gegin - £2 yr awr (neu'n rhannol)

Nodir fod hyd y cyfarfod yn cynnwys yr amser paratoi a'r glanhau wedyn.

Bydd yna dal penodol o £40 wrth logi ar ôl angladd.

Cymwysterau ychwanegol ar gael hefyd wrth logi am ddigwyddiadau niferus a mawr –

Sain a Golau - £10.

Taflunydd a sgrin - £10.

Piano trydan - £10.

Llwyfan Bach - £10.

Lwyfan Mawr - £20.

Llestri £10.

Am wybodaeth bellach ynghyn a'r uchod neu os am logi ewch ar ôl Y clerc Llogi Derick Lock 01267 253524.

Unrhyw un sydd â diddordeb yn y swydd Ysgrifennydd cysylltwch â'r Cadeirydd Elfed Davies.01267 253053.

Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cynnal eu Bore Coffi MacMillan Blynyddol ar Sadwrn 22ain Medi yn y Neuadd o ddeg y bore hyd hanner dydd. Croeso i bawb a bydd digon o gacenni a choffi i bawb. Os allwch sbario danteithion gore i gyd i MacMillan.

Ar y dydd Mawrth canlynol, sef 25ain Medi cynhelir y Swper Elusennol blynyddol yn y Railwe, gyda diolch i Jayne a Nick. Tocynnau ar werth oddi wrth yr Ymddiriedolwyr am £12.50 yr un. Bydd yr elw eleni yn mynd at gynnal a chadw'r coed a'r llwyni yn y Cae Chwarae.

Derick Lock – Ysgrifenydd.

Clwb Cant Llanpumsaint

Dyma restr o'r enillwyr a dynnwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Lles am y ddau fis diwetha'

-

Mehefin

£20 – Rhif 1 – Derick Lock

£15 – Rhif 35 – Shirley Davies

£10 – Rhif 96 – Ann Wyke

Gorffennaf

£20 – Rhif 105 - Wil Ftzsimon

£15 – Rhif 14 – John a Carolyn Atkinson

£10 – Rhif 9 - Dave Hume.

Mae 'na rifau ar ôl o hyd os am ymuno - cysylltwch â Derick Lock 01267 253524 - Trysorydd.

Diwrnod Fferm Agored hynod o heulog.

Pleser fu croesawu dros hanner cant o ymwelwyr i Fferm yr Esgair, Llanpumsaint ar ein Sul Fferm Agored. Ar ddiwrnod godidog gwnaeth ein noddwyr roi gwybodaeth a lluniaeth er mwyn plesio rhieni a phlant nad oeddent wedi bod ar ffermdy cynt.

Er mae mynediad am ddim oedd hi casglwyd £48 tuag at Elusen Ymchwil Cancr. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ar y dydd a hefyd drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys ein cwsmeriaid. Gallwch gysylltu drwy Facebook neu www.pastureperfect.co.uk

[<http://www.pastureperfect.co.uk>](http://www.pastureperfect.co.uk)

- Nicky Dickenson

Heddlu

Hyd yn hyn, rydyn ni'n mwynhau haf poeth a sych. Yng ngoleuni hyn, rydyn ni wedi derbyn nifer uchel o alwadau yn ddiweddar mewn perthynas ag unigolion ifanc yn defnyddio'r afonydd a'r nentydd i oeri. Rydyn ni'n argymhell rhieni i siarad gyda'u plant a'u hatgoffa am y peryglon sydd yn ymwneud ag afonydd a nentydd. Rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio gyda Diogelwch Dŵr Caerfyrddin drwy siarad a chynghori pobl am y peryglon. Mae hyn wedi dod yn broblem ym Mronwydd, lle mae unigolion ifanc yn cerdded wrth ymyl trac y rheilffordd ager er mwyn mynd at y nant; mae gan hyn beryglon ychwanegol oherwydd mae gan y rheilffordd amserlen lawn trwy gydol yr haf.

Er bod y rheilffordd yn breifat, mae hyn dal i fod yn tresmasu, ac mae'n beryglus. Os wnawn ni ddal pobl ar y llinell, efallai byddwn ni'n eu herlyn.

Mae Dyfed-Powys wrthi'n lansio timoedd troseddau gwledig ar draws yr heddlu. Bydd y timoedd yn ymchwilio i droseddau gwledig, yn rhoi cyngor ynglŷn â diogelwch, ac yn mynd i farchnadoedd a sioeau gan ymgysylltu â ffermwyr ac aelodau eraill o'r cymunedau gwledig. Bydd timoedd penodol ar gyfer pob sir, ond byddant yn cydweithio'n agos er mwyn ceisio lleihau problemau gwledig. Os fyddwch chi'n gweld rhywbeth amheus, gadewch i ni wybod drwy ffonio 101.

Rydyn ni dal yn ceisio sefydlu cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned yn Llanpumsaint, a hoffwn glywed gan unrhyw breswylwyr sydd eisiau bod yn rhan ohono. Rhowch alwad i mi ar 101 neu anfonwch e-bost ataf ar martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk er mwyn trafod y cynllun a'r camau nesaf. SCCH 8046 Martin Dickenson

Clwb Gwili Bronwydd

Rydym wedi mwynhau ein teithiau dyddiol eleni a'r tywydd wedi bod mor braf. Aeth y cyntaf i Dy Tredegar a'r Gerddi ac yna ymlaen i gael te yn y Celtic Manor. Profodd hwn i fod yn ddigon poblogaidd i lenwi dwy fws. Cawsom fordaith ar yr Afon Gwy ar ein hail daith, cyn mynd i siopa yn nhre Mynyw, ac yna dychwelid i'r White Hart Llandelo am swper. Bythefnos 'nol buom ar Fferm Geffylau sirol Dyfed yn Eglwyswrw. Cafwyd amser diddorol wrth i Mark olrhain hanes y teulu a'r fferm. Dilynwyd hyn gan arddangosfa o'r gweilch a'r gwddihws. Gwelsom hefyd ddau ebol ac asyn bach gwyn newydd anedig. Gorffennwyd y daith yn Nantyffin, Clunderwen am swper.

Awn ar ein taith nesaf ar 22ain Awst i Landrindod gan alw yn Amgueddfa Siop Thomas, Pen-y-bont, ar y ffordd. Diwedddwn gyda the yn y Metropole ynghanol Llandrindod. Bydd ein cyfarfod nesaf wythnos ynghynt ar 20fed o Awst (nid y 27ain) oherwydd Gŵyl y Banc. Daw Arwyn Thomas atom i siarad am ei lyfr diweddaraf. Rydym yn trefnu taith siopa Nadolig ar y 14eg o Dachwedd i Ffatri Trego ym Merthyr. Bydd y Twrci a Thinsel yn cymerid lle o'r 5ed i'r 9fed o Dachwedd. Yna taith ddirgel ar y 9fed o Ragfyr cyn mwynhau ein Cinio Nadolig.

Y Tâl Aelodaeth yw 5 y flwyddyn - os am wybodaeth bellach cysylltwch â Val Giles 01267 281194

Cyngor Bro Llanpumsaint

I'r sawl ohonnoch sydd yn cadw llygad ar weithgareddau Cyngor y Gymuned wrth ddarllen y Dudalen Wé, efallai byddwch wedi sylwi fod yr wybodaeth sydd arno bellach yn gyfredol (fwy neu lai!) Mae'r hyn oedd yn rhwysto'r Clerc rhag diweddarau'r Dudalen wrth lwytho'r Cofnodion arno wedi ei ddadrys.

Rhannwyd newyddion siomedig gyda'r Cynghorwyr yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor gan Gynghorydd Derick Lock a ddywedodd na fyddai Pwyllgor y Neuadd yn derbyn swm blynyddol o £250 am ganiatau I'r Sir gadw safle ailgylchu ar faes parcio y Neuadd Goffa. Gan mae dim ond cylyd gymharol fach sydd gan Bwyllgor y Neuadd, mi fydd hwn yn golled sylweddol iddynt.

Bu gostyngiad sylweddol yng nghost yswiriant Cyngor y Gymuned eleni oherwydd I'r Cwmi Yswiriant arferol synhwyro fod yna gwmni yswiriant arall am swyno'r Cyngor I'w corlan ac o'r herwydd, fydd cost yswiriant I'r Cyngor eleni I lawr I'r hanner yr oedd llynedd.

Ni fydd Cyngor y Gymuned yn cyfarfod yn ystod Mis Awst oherwydd dyma'r cyfnod mae'r Cynghorwyr yn gorffwys o'u gwaith ac yn ymlacio yn eu tai yn y wlad.....

Phil Jones Clerk, 01267 253512, or email clerk@llanpumsaint.org.uk/communitycouncil

Gofal Traed

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

Clwb Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo.

Cynhelir ein Cyfarfod Blynyddol ar nos Iau 16eg Awst am wyth o'r gloch yn y Neuadd. Croeso cynnes i wynebaw newydd. Byddwn yn dechrau ymarfer unwaith eto ar Nos Lun 3dd Medi o 7.30 tan 9.30, ac yna bob Nos Lun a Nos Iau drwy'r gaeaf hyd Ebrill. Croesawn chwaraewyr newydd rhwng 11 a 99 oed i ddysgu dan arweiniad hyfforddwy profiadol. Felly cysylltwch â'r Cadeirydd Alan Dentry 253549 neu'n Hysgrifenyddes Jill Edwards 253474.

Fforwm Skanda Vale yn Fferm y Felin

Mae yna nifer fach o tua 8 o bobl yn cyfarfod bob deufis bron iawn, I drafod trafferthion trafniadaeth ar yr heolydd sydd yn cludo addolwyr I Deml Skanda Vale. Ar adegau, mae'r nifer o geir sydd ar heol y Felin yn creu rhwystrau I bawb; addolwyr, trigolion a thirfeddianwyr. Brodorion o'r Deml, cymdogion iddynt a thrigolion sydd a'u tai ar hyd yr heol yw aelodau'r Fforwm, ac hyd at yma, un llwyddiant mawr sydd wedi bod, yw dod a stop I fysis yn defnyddio heol y Felin a gobeithir cael gwelliannau arall yn y dyfodol agos. Phil Jones

Mae'r Cais Cynllunio canlynol yn dal i fod yn sefyll:

[W/36511](#) LAND PART OF SKANDA VALE,
LLANPUMSAINT, CARMARTHEN,
SA33 6JT

FORMATION OF A REPLACEMENT
PILGRIM CAR AND MINI-BUS
PARKING AREA

Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion y gwasanaethau am fisoedd Medi a Hydref 2018

Medi 9 2018 Cymundeb am 3.00 y.p. Mrs Dwynwen Teifi

Medi 23 2018 Gwasanaeth Undebol yng Nglawddcoch 10.30 y.b.

Medi 30 2018 Cymundeb am 2.00 y.p. Parch Huw George

Hydref 14 2018 Manylion pellach i ddilyn

Hydref 28 2018 Gwasanaeth am 11.00 y.b. Mr Peter Harries

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Caersalem, Llanpumsaint

A'r hwn a ddêl ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim. Ioan 6:37

Gwasanaeth Cymraeg pob prynhawn Sul am 2pm neu 2.30pm ar wahan i Sul ola'r mis pan mae'r oedfa yn Saesneg.

Cwrdd gweddi bob prynhawn dydd Iau ac Ysgol Sul i oedolion ar fore Sul

Croeso i bawb. Am fwy o fanylion ffoniwch Eleri Morris ar 01267 253895

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Ar hyn o bryd mae'r Cór yn cael seibiant haeddiannol ar ól blwyddyn brysur iawn. Ar Fai 17 2018 yn Neuadd Cynwyl Elfed cyflwynodd y Cór sic o £1000 i'r elsuen ddewisiedig am 2017 sef M.S. Dyma oedd elw y cyngerdd yn Eglwys Llandysul ym mis Ebrill 2017. Ar Orffenaaf 5 2018 cynhaliwyd Swper ac Adloniant Blynyddol y Cór yn Neuadd Goffa Llanpumsaint. Eto eleni cafwyd noson lwyddiannus iawn gyda adloniant safonol gan Ceri Davies, Gwenan Owen a'i chwaer, Dion Page Jones a thriawd dawnsio o Flaenycloed o dan ofal Sioned Page Jones. Diolch yn fawr iawn hefyd i Steve a Ros Evans Penbompren am y bwyd safonol fel arfer. Ar Orffenaaf 12 2018 gwahoddwyd Dysgwyr Cymraeg o Brifysgol Llambled i Lanpumsaint fel sydd wedi digwydd ers sawl blwyddyn bellach. Pwrpas y noson hon yw i Ddysgwyr Cymraeg gael noson gymdeithasol mewn awyrgylch hollol Gymreig. Cafwyd noson hwylus iawn gyda aelodau o'r Cór wedi paratoi bwyd, dawnsio gwerin o dan ofal Dafi a Aeres Davies a chanu yng ngofal Gwyn Nicholas gyda Geraint Rees yn cyfeilio. Noson i'w chofio yn enwedig i'r Dysgwyr. Fe fydd y Cór yn ail ddechrau ar nos Iau, Medi 6 2018 am 7.45 y.h. yn Neuadd Cynwyl Elfed pryd y byddwn yn paratoi ar gyfer ein Cyngerdd Blynyddol ar Dachwedd 3 2018 yng Nghapel y Tabernacl Caerfyrddin. Bydd y manylion yn llawn ar y rhifyn nesaf o Lais y Pentref neu ar bosteri o amgylch yr ardal.

Maet Loaf yn dychwelid Cynhelir noson o deyrnged i Meat Loaf yn y Neuadd Goffa ar y 13eg Hydref 2018 am hanner awr wedi saith yr hwyr. Bydd tocynnau ar gael oddi wrth Shirley Davies ar ôl y 3dd o fis Medi. Erys y pris yn £12.50, felly rhowch ffon iddi os am brynu tocyn - 01267 253157.

Cymdeithas Rhandir Llanpumsaint - Aethom o wanwyn hwyr i haf hirfelyn twym. Wedi disgwyl gweld planhigion yn ffynnu dyma ni yn casglu tato rhost a thomatos wedi ffrio. Dyna hap a damwain garddio! Ac wedyn dim glaw i lenwi ein casgenni dwr newydd! Cafwyd un neu ddau awgrym twp ar shwt i arbed dŵr, ei wanedu meded' un dyn bach penysgafn.

Daliwn i groesawu aelodau newydd. Am fwy o wybodaeth neu os am ymweld neu ymaelodi, yna cysylltwch â Keith 253375 neu Ray 253175.

Rhai atgofion am Haf twym 1976

Mae ein tywydd anghyffredin o dwym eleni yn dwyn atgofion o'r sefyllfa debyg 'nol yn 1976. Bu'r ffermwyr laddodd gwair yn gynnar yn ffodus, oherwydd wedyn daeth sychder mawr wrth i'r haul tanbaid deyrnasu am wythnosau. Erbyn Awst aeth y caeau'n llwyd, fel eleni, a chlywyd uchel seinydd cerbyd y Cyngor yn cyhoeddi cwtoegi ar ddŵr. Felly bu raid i'r lawnt a'r ardd dagu, a gwelwyd lori ar ôl lori yn carto bwyd anifeiliaid i mewn i'r ardal. Prin fod neb yn talu sylw i farwolaeth Mao Tse Tung neu etholiad Jimmy Carter i'r Tŷ Gwyn yn yr Amerig.

Dyma flwyddyn Eisteddfod y Llŵch yn Aberteifi, gyda chymylau o ddwst yn chwythu drwy bopeth, mor wahanol i brofiad stêcs Caerfyrddin ddwy flynedd cynt yn 1974. Er na chafodd wobr yno, erys awdl Dic Jones *Y Gwannyyn*, ynghyd a'r *Cynbeuaf* (Aberafan 1966) yn berlau barddonol i'r iaith Gymraeg. 'Roeddwn yno un noson o wres llethol, yn barod i lwyfannu'r ddrama, Wil Angladde. Ffars o gomedi ddu oedd hi gan Jim Parcnest, wedi ei lleoli mewn mynwent, gyda bedd agored ac actor o gorff. Braidd yn risque yn y cyfnod hwnnw i ddweud y lleia'!. Rhyw bum munud cyn dechrau syrthiodd gwraig fach oeddrannus ar ei hyd yn yr ail res o'r gynulleidfa. Dyma wyneb gofidus Jim, oedd yn cynhyrchu, yn ymddangos cefn llwyfan, " *Os odi'r fenyw fach na wedi marw 'sdim un ffordd all y ddrama ma fynd 'mlan!*". Wrth lwc wedi llewygu yn y gwres oedd hi, ac wedi dau lased o ddŵr daeth 'nol i'w sedd i fwynhau'r sbri.

Ar y Sadwrn canlynol 'roeddem i gyd yn rhan o dyrfa enfawr, ar fynwent go-iawn Capel Bwlchycorn ger Rhydargaeau, ac achlysur trist ofnadwy. Bu farw'r bachgen ifanc Emyr, o fferm y Gors gerllaw yn dilyn damwain tractor ar dir or-sych. Yn weithiwr caled a chymeriad byrlymus a ffraeth bu Emyr yn hynod boblogaidd yng Nghlwb Ffermwyr Ifenc Llanpumsaint, ac yn flaellaw ymmysg y criw hapus wnai ymgynnull yn y Stag gyda Madge. Dyma un o'r angladdau mwyaf a welwyd yn lleol, a hynny ar brynhawn o heulwen tanboeth arall.

Arwyn 2018



Village Voice

August 2018

Copy Date for next Edition 24th September 2018

**Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY**

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Monday and Thursday from 3 September Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall

Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1 hour session.

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

Every Wednesday 10.45- 11.45 Mobile Library outside Memorial Hall, details 224830

Every Tuesday 2.00 – 4.00 and Friday 1.00 – 3.00 Mobile Post Office, layby Bryn y Wawr

Every Friday 11.15 – 12.15 Post Office Van Bronwydd Village Hall Carpark

Every Third Monday – Merched y Wawr Memorial Hall

August 11 Saturday 2.00 Walk on Llanllwni Mountain

August 14 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

August 18 Saturday 3.00 Annual Horticultural Show Bronwydd Hall

August 20 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

August 21 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

August 23 Thursday 2.00 Community Open Day Brechfa Forest West

August 25 Saturday Cynwyl Elfed Show

August 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

September 1 Saturday 2.00 Walk in Llansteffan

September 4 Tuesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall

September 5 Wednesday 10.00 Foot Clinic Memorial Hall

September 9 Sunday Field Trip West Wales Dowsers

September 12 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

September 18 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

September 22 Saturday 10 – 12 Macmillan Coffee Morning Memorial Hall

September 23 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

September 25 Tuesday Welfare Charity Meal Railway Inn

September 30 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

October 2 Tuesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall
 October 5 Friday Llanpumsaint Church Harvest Festival and Harvest Supper
 October 6 Saturday 2.00 Walk Cilgerran Aboretum
 October 10 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book
 October 13 Saturday 7.30 Meat Loaf at Memorial Hall
 October 16 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn
 October 19 Friday Fashion Show for St Celynin Church
 October 28 Sunday 1.45 West Wales Dowers Bronwydd Hall
 October 28 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn
 November 3 Saturday Annual Concert Llanpumsaint & District Choir. Tabernacl Chapel Carmarthen
 November 5 – 9th Turkey and Tinsel Trip 60+ Club
 November 6 Tuesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall
 November 14 Wednesday Trip to Trego Mills
 November 21 Wednesday 7.00 Bingo Memorial Hall
 December 1 Saturday PTA Christmas Fair Memorial Hall
 December 13 Thursday Mystery Trip and Christmas Dinner 60+ club Bronwydd

Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall - To book phone Derick Lock on 253524



Waterfall and pools – River Cerwyn



Walkers in the rain



River in Flood 2006



Fields Flooded 2006

Thought you would all like to see some pictures showing rain!

Horticultural Show - Bronwydd

The 35th Annual Horticultural Show of Bronwydd & District Gardening Club is on Saturday 18th August in Bronwydd Hall. Open to the public at 3.00 pm. Admission Adults £1.50. Children 25p. Really good to go and see the vegetables, flowers, preserves and cakes – and have a cup of tea!

Head to Toes Footcare

New clients should contact Gary Robinson any weekday evening between 6 – 8pm on 07789344488, as should any existing client wishing to cancel (at least 24hrs notice, please)

Llanpumsaint Walking Club

In June, with the kind permission of the owner of the land, we walked up to the legendary 5 pools on the River Cerwyn in Llanpumsaint on Midsummer day - see photo on previous page of the waterfall that goes into the 5 pools.

In July we walked through Laugharne and along the estuary on a stunning day. We finished the walk sitting near the castle eating an icecream!

The August walk at 2.00pm on Saturday 11th will take us to Llanllwni Mountain. Park at the layby on the bend at map ref 499362 (turn right off the A485 at New Inn, then sharp left fork at the junction about 1/3 mile after the Brechfa Forest's Tower car park. The left-hand bend and layby are about another 1/2 mile on). There is room for up to 4 cars in the layby. Lovely to walk over this unspoilt high ground with stunning views.

Saturday 2.00pm, 1st September sees us again at the seaside at Llansteffan. Park in the beach carpark nearest the castle. Depending on the tide, we will walk along the beach, past St Anthony's Well, and back along the inland path to finish at the café in the village. Easy walk.

2.00pm on Saturday October 6th, will take us to Cilgerran to walk around the arboretum that was planted about 20 years ago. Autumn colour with the Acers should be at their best. Easy walk of about 5 miles, maybe some muddy patches depending on recent rain. Park on the Llechryd road just as it leaves Cilgerran.

We welcome everyone on our walks, for more details contact Carolyn Smethurst on 01267 253308

Which? Campaigns Team - Warns of Costa Coffee Whatapps Scam

A fake Costa Coffee voucher scam is catching people out on Whatsapp and allowing criminals to steal personal data.

The new scam starts with Whatsapp users receiving an offer for a £75 voucher in celebration of Costa's 50th birthday. Victims are then asked to enter personal information before they can access the 'voucher'.

Costa has confirmed the message is a scam. If you get the message re an offer of a £75 voucher, do not click on the link and do not enter any personal information. You can find out more about the scam on the Which? Website and find out what to do if you've already entered your personal details.

Defibrillators – wherever you are in Wales

You can find a defibrillator anywhere in Wales, just by putting in your postcode. Go to NHS Direct Wales website, and then to Local Services. Put in your postcode and the list of defibrillators nearest to you on a map will be shown.

Meat Loaf Tribute Band Returns to Llanpumsaint

